# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

# CYNGOR GWYNEDD

# 2023-24

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno crynodeb o'r gwaith mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi bod yn ymwneud â fo dros y flwyddyn 2023-24 ac i gyflwyno tystiolaeth posib am effaith gwaith y pwyllgor.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail adroddiad ffurfiol y Cadeirydd, ar sail gofynion statudol Llywodraeth Cymru, gan obeithio y bydd yn rhoi blas i chwi o sut mae'r Pwyllgor wedi mynd ati i ystyried y trefniadau llywodraethu sydd o fewn y Cyngor, y ffactorau anodd rheini sydd yn wynebu'r Cyngor dros y cyfnod a sylwadau'r Pwyllgor ar sut mae'r Cyngor wedi ymateb i risgiau a defnydd doeth o'u hadnoddau.

Mae gan y Pwyllgor rôl amlwg i ystyried ffactorau ariannol a rheolaeth trysorlys ond mae hefyd wedi bod yn sicrhau ei hyn ynglŷn â ffactorau eraill, megis yr economi a materion cymdeithasol a lles.

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i'r holl swyddogion sydd wedi cefnogi gwaith y Pwyllgor mewn modd trylwyr a phroffesiynol, yn paratoi adroddiadau a gwybodaeth manwl. Gall aelodau'r Pwyllgor holi a chwestiynu yn fanwl er mwyn cael sicrwydd bod trefniadau cadarn mewn lle, ar sail risg, i hyrwyddo llywodraethu a rheolaeth gadarn. Hoffwn hefyd ddiolch i Arweinydd Cyllid sydd wedi bod gyda ni yn arsylwi, yn cyfrannu ac yn tywys ein sylwadau yn ôl i'r Cabinet am sylw.

Mae cryn newid wedi bod yng nghyfansoddiad y Pwyllgor yn y flwyddyn gynt yn dilyn gofynion statudol gyda'r nod o sicrhau un rhan o dri yn aelodau lleyg gyda Cadeirydd hefyd yn aelod lleyg. Mae'n debyg bod hi'n bwysig dweud fod yna nifer uchel o aelodau di brofiad o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gychwyn fy nghyfnod fel Cadeirydd.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Aelodau Etholedig a Lleyg am y cyfraniad doeth dros y flwyddyn diwethaf a'r ffordd agored a chefnogol maent wedi gweithredu. Diolch i chi am y gefnogaeth.

Wrth edrych ymlaen i 2024/25, ni rhagwelir sefyllfa gyda llai o sialens i'r dyfodol. Byddwn fel Cyngor yn parhau i weld pwysau mawr ar y gyllideb ac felly yn ei dro ar wasanaethau.

Pwysig fydd i bawb fod yn ystyried dulliau amgen o gyflwyno gwasanaethau a gwneud y gorau o'r cyllidebau sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn barod unwaith eto i wynebu'r her o helpu'r Cyngor yn ei dasg ac i geisio cynigion arloesol ble mae'n bosib.

**Mrs Sharon Warnes**

**Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022 - 2024**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl barhaus yn y drefn o ddarparu llywodraethu dda. Pwrpas craidd y pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg a'r amgylchedd reolaeth gysylltiol, craffu annibynnol o berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd reolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol.

2. Wrth gyflawni ei waith, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ganllawiau gwahanol gyrff a sefydliadau allanol gan gynnwys CIPFA.

3. Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022), diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

   *Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.*

**CYFNOD YR ADRODDIAD**

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 4 Mai 2023 a'r cyfarfod blynyddol ar 9 Mai 2024. Cynhaliwyd 6 cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod cyfnod dan sylw:

   25 Mai 2023

   7 Medi 2023

   12 Hydref 2023

   14 Rhagfyr 2023

   18 Ionawr 2024

   8 Chwefror 2024

## AELODAETH Y PWYLLGOR

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a chwe 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

6. Roedd presenoldeb yr aelodau yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

### Cadeirydd (Aelod Lleyg)

| | 25/05/2023 | 07/09/2023 | 12/10/2023 | 14/12/2023 | 18/01/2024 | 08/02/2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sharon Warnes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### Is-Gadeirydd (Aelod Lleyg)

| | 25/05/2023 | 07/09/2023 | 12/10/2023 | 14/12/2023 | 18/01/2024 | 08/02/2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hywel Eifion Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### Cynghorwyr

| | 25/05/2023 | 07/09/2023 | 12/10/2023 | 14/12/2023 | 18/01/2024 | 08/02/2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ |
| Cyng. Menna Baines | ✓ | ✓ | x | ✓ | x | ✓ |
| Cyng. Jina Gwyrfai | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Elwyn Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Edgar Owen[1] | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Alwyn Herald Roberts[2] | | ✓ | ✓ | x | x | ✓ |
| Cyng. Meryl Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Richard Glyn Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Cyng. Huw Rowlands | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Paul Rowlinson | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Angela Russell | x | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Rob Triggs | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ |

### Aelodau Lleyg

| | 25/05/2023 | 07/09/2023 | 12/10/2023 | 14/12/2023 | 18/01/2024 | 08/02/2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carys Edwards | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Clare Hitchcock | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhys Parry | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

[1] Wedi ymaelodi yn ystod haf 2023
[2] Wedi ymaelodi yn ystod haf 2023

## SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR

7. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Cyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.
8. Mae Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn pennu'r canlynol fel swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

### Swyddogaeth na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth

Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

### Swyddogaethau mandadol o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y diwygiwyd) :

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol

(e) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas a gallu'r awdurdod I ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol.

(f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(ng) Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu).

**Swyddogaethau Eraill**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor neu Archwilio Cymru a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau’r adroddiadau.

## GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2023/24

### Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod

9. Yn ei gyfarfod ar 25 Mai 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, oedd yn cwmpasu Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022 / 23 yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 (yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru).

10. Yn yr un cyfarfod, cymeradwywyd Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Mewn blynyddoedd blaenorol roedd y cyfrifon hyn wedi cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ei hun, ond gan fod y trefniant ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023, a'r Cyd-bwyllgor heb gyfarfod wedi'r dyddiad yma, cyflwynwyd y cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Gwynedd yn amodol ar archwiliad 2022/23 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2023. Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun. Yn ystod y drafodaeth bu'r Pwyllgor yn herio'r swyddogion Cyllid ar wahanol agweddau o'r cyfrifon, yn enwedig trefniadau'r Cyngor i gynnal ei gronfeydd ariannol.

12. Cyflwynwyd y Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, a'r archwiliad perthnasol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024. Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon (adroddiad "ISA 260"), penderfynodd y Pwyllgor:

   - Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
   - Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2022/23 (ôl-archwiliad) - Cadeirydd y Pwyllgor i ardystio'r Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o'r Cyfrifon
   - Cadeirydd y Pwyllgor ynghyd â'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg
   - Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod.

**Arolygu materion ariannol yr awdurdod, craffu arnynt, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Gwariant Refeniw

13. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol yr awdurdod yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad Alldro Refeniw ar y Cyfrifon Terfynol 2022/23 i gyfarfod 25 Mai 2023 er mwyn i'r Pwyllgor allu derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2022/23, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2022/23, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau am hynny. Mynegwyd pryderon yn y cyfarfod fod gorwariant yn ymddangos yn rheolaidd mewn rhai adrannau, ac roedd yr aelodau yn awyddus i weld gweithgaredd i geisio dod â'r gwariant o dan reolaeth.

14. Yn ogystal ag ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cynhelir adolygiadau ffurfiol o sefyllfa'r gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn, ar ddiwedd Awst a diwedd Tachwedd. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2023 i'r Pwyllgor ar 12 Hydref 2023, ac adroddiadau ar adolygiad diwedd Tachwedd 2023 i'r cyfarfod ar 18 Ionawr 2024. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a bu i'r Pwyllgor gytuno gydag argymhellion y Cabinet er mwyn ymdrin â'r sefyllfa o or-wariant oedd yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

15. Ymysg y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau hyn roedd yr angen i'r Cabinet edrych ar gynllun gweithredu penodol yr Adran Addysg i ymdrin â materion trafnidiaeth, bod angen datrys problemau ailgylchu, yr angen i ystyried dull o godi ffi ar y gwasanaeth Airbnb i godi incwm i'r Cyngor ac ystyried y risg bod lleihad mewn niferoedd disgyblion yn ysgolion Gwynedd a hyn felly yn arwain at leihad mewn cyllid i'r dyfodol. Nodwyd fod sawl cyfeiriad yn yr adroddiadau at gynnal adolygiadau, ond roedd pryder o ddiffyg amserlen i adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r adolygiadau yma ac roedd y Pwyllgor yn awyddus i'r Cabinet bwyso am amserlen lle'n briodol.

Rhaglen Gyfalaf

16. Ar 25 Mai 2023, cyflwynwyd Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Sefyllfa 31 Mawrth 2023) Rhaglen Gyfalaf 2022-23. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (sefyllfa 31 Mawrth 2023), a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.

17. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2023 o'r rhaglen gyfalaf i'r Pwyllgor ar 12 Hydref 2023, ac ar adolygiad diwedd Tachwedd 2023 i'r cyfarfod ar 18 Ionawr 2024 er mwyn derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet.

<u>Rhaglen Arbedion</u>

18. Ynghlwm â'r adolygiad o sefyllfa'r gyllideb refeniw, mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar wahân yn ystod y flwyddyn ar allu'r Cyngor i wireddu ei gynlluniau arbedion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ar 12 Hydref 2023 a 18 Ionawr 2024 fel bod modd i'r Pwyllgor ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.

19. Gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad i'r Cabinet fod angen herio manwl ar gynlluniau sydd ddim yn cael eu gwireddu ac fod angen sicrhau adolygiad rheolaidd o'r cynlluniau hynny.

20. Oherwydd y bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf bu'n rhaid iddo ddatblygu cynlluniau arbed newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ymlaen, a hynny ar fyrder. Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor i gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Chwefror 2024, oedd yn cyflwyno cyfres o arbedion pellach ar gyfer 2024/25. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod ar 20 Chwefror. Roedd y Pwyllgor yn glir nad ei rôl oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol oedd cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Penderfynodd y Pwyllgor:

- Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion
- Bod yr arbedion a gynigwyd yn rhesymol a chyraeddadwy
- Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir
- Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion
- Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion 2024/25 yn eu cyfarfod 20/2/24

21. Yn ogystal â hynny, gofynnwyd i'r Cabinet sicrhau fod cynllun cyfathrebu clir yn ei le wrth gyflwyno'r toriadau.

Rheolaeth Trysorlys

22. Yn unol â threfniadau llywodraethu da yn ogystal â gofynion statudol, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod 7 Medi 2023 ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2022/23, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 3 Mawrth 2022. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd diweddariad chwarterol Rheolaeth Trysorlys yng nghyfarfod 12 Hydref 2023, ac adolygiad canol blwyddyn Rheolaeth Trysorlys 2023-24 i gyfarfod 14 Rhagfyr 2023. Pwrpas yr adroddiadau hyn oedd diweddaru'r Pwyllgor am wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Gosod Cyllideb

23. Wrth agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gyllideb 2024/25 ar 8 Chwefror 2024 er mwyn craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2024/25 i'r Cyngor llawn. Rôl y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn oedd craffu'r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. I gynorthwyo'r gwaith yma, cafodd aelodau etholedig ac aelodau lleyg y Pwyllgor gyfle i fynychu Sesiwn Briffio ar y Sefyllfa Ariannol gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid ar 16 Ionawr.

24. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i atodiadau, penderfyniad y Pwyllgor oedd derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys, derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol a chyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr opsiynau i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2024/25 yn eu cyfarfod ar 20 Chwefror 2024.

25. Nid oedd unrhyw bwynt penodol roedd y Pwyllgor yn ystyried fod angen dwyn sylw'r Cabinet na'r Cyngor Llawn iddo. Fodd bynnag, gwnaethpwyd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Bod rheolaeth trysorlys mewn dwylo da
- Bod yr amcanion wedi cael eu hystyried mewn modd realistig
- Bod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i'r drefn bidiau
- Bod Gwynedd yn cymharu yn dda iawn gyda chynghorau eraill
- Roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda threfniadau'r Cyngor wrth osod cyllideb.

26. Hefyd yng nghyfarfod 8 Chwefror 2024 bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyfalaf 2024/25 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg), a hynny er mwyn ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei dderbyn. Roedd y cyflwyniad roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ei dderbyn ar 7 Chwefror gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, yn hynod ddefnyddiol wrth ymgymryd â'r dasg yma. Derbyniwyd yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a cefnogwyd bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar 7 Mawrth 2024.

**Hybu rheolaeth fewnol; Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Adroddiadau Archwilio Mewnol

27. Pwrpas Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ydi "Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio".

28. Mae adroddiadau archwilio mewnol yn arf pwysig felly i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

29. Mae mwyafrif adroddiad Archwilio Mewnol yn gosod canlyniad y gwaith i un o bedwar categori o lefel sicrwydd, fel a ddangosir yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

30. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2022/2023 i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mai 2023. Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2022/2023, roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

31. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn ddiweddariadau ar waith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad am y cyfnod o 25 Ionawr 2023 hyd 31 Mawrth 2023 i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mai 2023. Amlygwyd bod 12 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau. O'r rhain, roedd 3 wedi derbyn barn "sicrwydd uchel", 6 wedi derbyn "sicrwydd digonol" a 3 "sicrwydd cyfyngedig".

32. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 12 Hydref 2023 yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023. Amlygwyd bod 8 o archwiliadau wedi eu cwblhau, gyda phump ohonynt yn dangos lefel "sicrwydd uchel" a thri yn dangos lefel "sicrwydd digonol".

33. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar 14 Rhagfyr 2023 yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2023 hyd 30 Tachwedd 2023. Amlygwyd bod 6 o archwiliadau o Gynllun Gweithredol 2023/24 wedi eu cwblhau gyda phump ohonynt wedi derbyn lefel "sicrwydd digonol" ac un wedi derbyn lefel "sicrwydd uchel".

34. Rhoddwyd sylw i'r holl gynnyrch yma yn eu tro gan y Pwyllgor. Lle roedd sicrwydd cyfyngedig, gwnaethpwyd cais am wybodaeth ddilynol er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gyflawni ei ddyletswyddau.

<u>Adroddiadau Archwilwyr Allanol</u>

35. Ar 25 Mai 2023 cyflwynodd Archwilio Cymru *Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2022 Cyngor Gwynedd* gan yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y papur hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Gwynedd gan Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad blaenorol ym mis Ionawr 2022. Mae cyhoeddi'r crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Amlygwyd bod y gwaith a gyflawnwyd yn cwmpasu dyletswyddau megis gwelliant parhau, archwilio cyfrifon, sicrhau gwerth am arian ac asesu i ba raddau mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r dyletswydd datblygu gynaliadwy.

36. Ar 7 Medi 2023 cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru *'Cyfle Wedi'i Golli' - Mentrau Cymdeithasol* i'r Pwyllgor. Cyflwynwyd ymateb y rheolwyr oedd yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymateb.

37. Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru A*dolygiad o Effeithiolrwydd Craffu – Cyngor Gwynedd* i'r Pwyllgor ar 12 Hydref 2023, yn ogystal ag ymateb y Cyngor i'r argymhellion. Amlygwyd bod yr adroddiad yn un calonogol. Trafodwyd y darganfyddiadau a cyfeiriwyd at y chwe argymhelliad a gynigwyd gan Archwilio Cymru. Mewn ymateb gan y Cyngor, er yn derbyn bod y gwasanaeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir, cydnabuwyd bod lle i wella ac i finiogi'r trefniadau presennol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, ond fel rhan o'r drafodaeth mynegwyd fod angen ystyried trefn fel y gall gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fwydo i mewn i'r drefn Craffu.

38. Ar 14 Rhagfyr 2023 cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru *Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd* i'r Pwyllgor, a mynychodd yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cadeirydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor) er mwyn manylu ymhellach ar gynnwys yr adroddiad. Penderfynodd y Cyngor dderbyn yr adroddiadau a nodi'r wybodaeth, a chymeradwyo ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion Archwilio Cymru

39. Ar 18 Ionawr 2024 cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru *Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth* i'r Pwyllgor, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r argymhellion. Nododd swyddog Archwilio Cymru bod pob Cyngor yn defnyddio gwybodaeth perfformiad ond bod angen ystyried os yw'r wybodaeth yn cyflawni amcanion a sicrhau gwerth am arian. Ategodd bod Cyngor Gwynedd yn rhannu llawer o enghreifftiau da - yn darparu llawer o wybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr i'w helpu i ddeall persbectif defnyddwyr gwasanaeth a defnyddio adborth

cwsmeriaid gwella gwasanaethau sydd yn adlewyrchu ar drefniadau perfformiad diweddar. Er hynny, adroddwyd bod llai o dystiolaeth ynglŷn â threfniadau gwirio data a bod gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig. Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd rheolwyr y Cyngor bod yr adroddiad yn ymddangos yn negyddol ei natur, ond wedi trafod ymhellach gyda swyddogion Archwilio Cymru bod pryderon wedi eu lleddfu a bod mwyafrif o'r camau sydd yn cael eu cynnig yn bethau mae'r Cyngor eisoes yn gweithio arnynt neu bellach wedi eu cyflawni. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth a chroesawu ymateb y Rheolwyr.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

40. Un o orchwylion blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ydi adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Mae'r datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod Ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn gwirio a herio ei gynnwys.

41. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor ar 12 Hydref 2023. Bu'r Pwyllgor yn herio gynnwys y datganiad, a gwneud arsylwadau ar rai o'r sgoriau risg, yn enwedig yr angen i gynyddu sgôr risg ariannol y Cyngor. Penderfynwyd cymeradwyo'r datganiad ac argymell bod Arweinydd y Cyngor a Prif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo.

42. Ymhellach i hynny, ac yn unol â dymuniad y Pwyllgor, cyflwynwyd Diweddariad Canol Blwyddyn ar Risgiau Llywodraethu Cyngor Gwynedd i gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Chwefror 2024.

Adolygiad y Cyfansoddiad

43. Ar 7 Medi 2023 cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro yn amlygu elfennau o’r Cyfansoddiad oedd angen eu diweddaru ynteu mewn ymateb i ofynion Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) 2021, newidiadau cyfreithiol neu drefniadau oedd yn cyfiawnhau newid. Adroddwyd y gwelwyd cyfnod o sawl newid i'r Cyfansoddiad wrth i’r Ddeddf ddod yn weithredol a bod newidiadau pellach yn fater o sicrhau trefn.

44. Er mai materion yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn oedd rhain, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi’r newidiadau arfaethedig gan argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn eu mabwysiadu. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi’r newidiadau arfaethedig i’r Cyfansoddiad gan argymell i’r Cyngor Llawn eu bod yn cael eu mabwysiadu.

Adolygu Trefniadau Craffu.

45. Ar 18 Ionawr 2024, gofynnwyd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y gwaith adolygu manwl i drefniadau Craffu’r Cyngor er mwyn gwneud argymhelliad i’w gyflwyno i’r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024.

46. Cyflwynwyd adroddiad yn amlygu’r gwaith a wnaed i adolygu’r trefniadau craffu cyfredol yn sgil adroddiad Archwilio Cymru. Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd i’r Pwyllgor i’w ystyried yn cynnwys yr holl drafodaethau a gynhaliwyd mewn gweithdai i Gynghorwyr, trafodaethau gyda’r Tîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Adrannau. Safbwynt y cyd-gyfarfod oedd i gyflwyno opsiwn 1, sef i gadw at y trefniadau cyfredol.

47. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan groesawu’r gwaith adolygu a wnaed o’r trefniadau craffu cyfredol yn sgil adroddiad Archwilio Cymru, ac argymell i’r Cyngor Llawn gymeradwyo Opsiwn 1. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, roedd yr argymhelliad yn ddarostyngedig bod gwaith yn cael ei gynnal i wella effeithlonrwydd a gweithrediadau’r Pwyllgorau Craffu.

Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd

48. Ar 8 Chwefror 2024 cyflwynwyd Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd i’r Pwyllgor. Yn unol â chyfrifoldebau’r Pwyllgor o adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, mae disgwyliad iddo i ystyried adroddiadau Estyn. Amlygwyd gan y Pennaeth Addysg bod Archwilio Cymru wedi cyfrannu at ganlyniad yr arolwg a bod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Tachwedd 2023.

49. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr adroddiad yn un positif iawn, ac roedd yn croesawu bod trafodaeth lawn wedi bod ar yr adroddiad a’r cynllun gweithredu yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gydag argymhelliad i’w alw yn ôl am ddiweddariad pellach ymhen 9 mis. Penderfynodd y Pwyllgor, felly, i dderbyn cynnwys adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd, a derbyn a nodi'r trefniadau i graffu ar drefniadau’r Adran Addysg i ymateb i argymhellion yr adroddiad yn amserol.

**I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

50. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2022/23 i'r Pwyllgor ar 7 Medi 2023, gyda cais i dderbyn yr adroddiad a darparu unrhyw sylwadau neu argymhellion ynglŷn a'r gyfundrefn gwynion sydd yn deillio o dderbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Cymru ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.

51. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno sylwadau Ombwdsmon Cymru ar drefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau yn ystod 2022/23 gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol ar y Pwyllgor i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Ategwyd na fu unrhyw newid yn y drefn na'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod 2022/2023 ac felly bod cynnwys llythyr yr Ombwdsman yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021.

52. Ar ôl trafodaeth ar ei gynnwys, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

**Arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod**

<u>Rhaglen Waith Archwilio Mewnol</u>

53. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o Siarter Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mai 2023. Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiedig 2017) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) a gyhoeddwyd gan CIPFA. Cyfrifoldeb y Pwyllgor yw cymeradwyo'r siarter yn flynyddol.

54. Ar ôl ystyried y Siarter, awgrymodd y Pwyllgor un gwelliant i'r siarter yn y dyfodol, sef cynnwys eglurhad ynglŷn â threfniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau pan yn cyflawni gwaith ar wahân i waith sicrwydd. Mae'r gwasanaeth eisoes yn ceisio sicrhau, os oes archwilydd wedi bod yn rhan o'r gwaith ymgynghorol, bod archwilydd arall yn gwneud y gwaith archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro. Roedd y Pwyllgor yn teimlo dylid datgan hyn yn fwy echblyg yn y dyfodol, ond penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

55. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2023/24. Wrth wneud hynny, roedd y Pwyllgor yn derbyn bod gan y cynllun hyblygrwydd i sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg, ac y byddai unrhyw addasiadau / newidiadau i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor.

56. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd ar waith y cynllun archwilio yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Cymeradwywyd addasiadau sylweddol i'r cynllun er mwyn adlewyrchu'r adnoddau oedd wedi bod ar gael i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

57. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Amlinellol 2023 gan Archwilio Cymru i gyfarfod 25 Mai 2023, oedd yn nodi'r gwaith roedd yr archwilwyr yn bwriadu ei wneud yn ystod 2023 fel modd o gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilydd allanol y Cyngor ac yn unol â'u rôl o dan Còd Ymarfer Archwilio. Nodwyd bod y cynllun yn cynnwys llinell amser archwilio gan dynnu sylw y byddai Cynllun Archwilio Manwl 2023 yn cael ei gwblhau erbyn Medi 2023 a hynny o ganlyniad i gyflwyniad o addasiadau i drefniadau gofynion Archwilwyr sydd yn cynnwys gwaith pellach mewn asesu risg cyn cyflwyno datganiadau.

58. Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Manwl i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2023. Eglurwyd bod y Cynllun yn amlinellu'r gwaith fydd yr archwilwyr yn ei wneud er mwyn cyflawni eu dyletswydd statudol sy'n cynnwys cadw llygad ar y risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd, sicrhau bod trefniadau gwerth am arian ar waith a chydymffurfio a'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni amcanion llesiant.

59. Mae'r Cynllun Manwl yn cyfeirio at risgiau sylweddol i'r datganiadau ariannol (h.y. Gwrthwneud gan y Rheolwyr) sydd yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol, ynghyd â thri risg generig, oedd eto wedi eu cynnwys ymhob cynllun archwilio ac nid yn risg penodol i Wynedd. Tynnwyd sylw at y gwaith archwilio perfformiad arfaethedig ac nad oedd addasiadau i'r wybodaeth a cyflwynwyd yn y cynllun amlinellol. Roedd y gwaith arfaethedig yn y maes perfformiad yn cynnwys:

- Asesu sicrwydd a risg
- Adolygiad thematig – cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol
- Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau
- Gwastraff ac ailgylchu.

60. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd y diweddariadau chwarterol canlynol i'r Pwyllgor ar waith y cyrff adolygu:

- Chwarter 4 2022/23 i gyfarfod 25 Mai 2023
- Chwarter 1 2023/24 i gyfarfod 7 Medi 2023.
- Chwarter 2 2023/24 i gyfarfod 14 Rhagfyr 2023.

**Swyddogaethau Deddf 2021 – Perfformiad y Cyngor**

61. Mae'n ofyn statudol newydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cynhyrchu "adroddiad hunanasesu" sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion perfformiad sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r un darn o ddeddfwriaeth yn nodi fod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio (Adran 91(6)).

62. Cyflwynwyd adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor ar 7 Medi 2023. Ar ôl trafod y cynnwys, penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr hunanasesiad drafft, ond gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r adroddiad unai ar gyfer 2022/23 neu mewn blynyddoedd i ddod.

63. Ymysg y sylwadau a wnaethpwyd oedd awgrym i gynnwys eglurhad byr o'r dystiolaeth cyn y casgliadau yn yr adroddiad, gan fod yr aelodau'n teimlo ei bod yn annhebygol y bydd rhai yn agor pob dolen yn yr adroddiad, a/neu sicrhau bod y casgliad yn gryno ac effeithiol fyddai'n crynhoi'r dystiolaeth er mwyn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ei ddeall. Roedd derbyniad nad oedd hyn yn ymarferol ar gyfer y fersiwn hon o'r adroddiad ond cytunwyd i ystyried hyn ar gyfer y fersiwn nesaf.

64. Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn bod angen sicrhau bod y dogfennau / ffynonellau tystiolaeth yn gyfredol (roedd nifer o'r dolennau yn rai ar gyfer adroddiadau 2021/22 ac roedd y Pwyllgor yn teimlo fod hyn yn wendid). Nodwyd fod y ddogfen hon yn cael ei pharatoi cyn i nifer o ddogfennau / ffynonellau tystiolaeth eraill ar gyfer y flwyddyn dan sylw gael eu mabwysiadu. O ganlyniad nid oedd modd cynnwys dolennau er fod cydweithio rhwng yr awduron pan yn llunio'r adroddiad.

**Monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion archwilwyr allanol a rheoleiddwyr**

65. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol yn ei gyfarfodydd ar 7 Medi 2023 a 8 Chwefror 2024. Yn unol â'i rôl statudol, mae angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

66. Ar sail yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, a'r gwaith herio a gyflawnwyd yn ystod y ddau gyfarfod, roedd y Pwyllgor yn fodlon fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i argymhellion a chynigion gwella adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddwyr yn gadarn.

67. Er hynny, yng nghyfarfod 8 Chwefror 2024 roedd y Pwyllgor o'r farn dylid addasu fformat yr adroddiad i'r dyfodol fel bod cynnwys yr argymhellion yn gyson.

**Ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

68. Cyflwynwyd un adroddiad ar ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef diweddariad gan y Swyddog Monitro ar raglen waith gweithredu Deddf Llywodraeth Leol Etholiad (Cymru) 2021 i gyfarfod 25 Mai 2023. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o gamau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf a ddaeth i rym yn 2022 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol. Nodwyd bod y Ddeddf wedi ei gosod o fewn Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg a sicrwydd ar y gweithredu sydd ei angen i weithredu'r darpariaethau.

69. Roedd yr adroddiad yn dangos cynnydd ar y rhaglen waith, a penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'r cynnydd yn y rhaglen waith.

**Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

70. Derbyniodd y Pwyllgor diweddariad ar y camau sydd wedi eu gwneud i weithredu ei benderfyniadau i bob un o'i gyfarfodydd yn ystod 2023/24. Cred y Pwyllgor fod hyn yn gam arwyddocaol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol.

71. Yn y gorffennol mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cynnal hunan-arfarniad achlysurol, ac yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2023 penderfynodd y Pwyllgor dylid cynnal un pellach mor fuan â phosib gan byddai bron i 2 flynedd wedi mynd heibio erbyn hynny ers etholiadau'r Cyngor 2022.

72. Cynhaliwyd gweithdy yn swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, ar 3 Ebrill 2024. Defnyddiwyd hwylusydd allanol i gefnogi'r gweithdy, sy'n brofiadol iawn yn y maes archwilio. Roedd ymdeimlad fod y gweithdy wedi bod yn un gwerthfawr a defnyddiwyd canllawiau CIPFA, a defnyddiwyd y Cwestiynau arfer da sy'n ymddangos yng nghyhoeddiad CIPFA "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*" er mwyn cynnal adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r egwyddorion allweddol a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA. Mae'r hunanasesiad yn ymddangos ar y tudalennau sy'n dilyn.

## Hunanasesiad o ymarfer da a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2024

| Cwestiynau ymarfer da | | Diffyg cydymffurfio | Cydymffurfio'n rhannol a graddau'r gwelliant angenrheidiol | | | Llawn cydymffurfio | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwelliant sylweddol | Gwelliant arwyddocaol | Gwelliant cymedrol | Mân welliant | Dim gwelliant pellach | |
| *Pwysiad atebion* | | 0 | 1 | 2 | 3 | 5 | |
| **Pwrpas pwyllgor archwilio a llywodraethu** | | | | | | | |
| 1 | Oes gan yr awdurdod bwyllgor archwilio penodol sydd heb ei gyfuno gyda swyddogaethau eraill (e.e. safonau, moeseg, craffu)? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 2 | A yw'r pwyllgor archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r corff llywodraethol (Cyngor Llawn)? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 3 | A yw'r pwyllgor wedi cynnal ei rôl ymgynghorol drwy beidio cymryd rhan mewn unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 4 | A yw'r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â Datganiad Sefyllfa CIPFA 2022? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Cylch gorchwyl y pwyllgor angen eu diweddaru i adlewyrchu Datganiad Safbwynt CIPFA. |
| 5 | Oes gan y rhai sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu ac mewn rolau arweinyddiaeth ddealltwriaeth glir o swyddogaeth a phwrpas y pwyllgor? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Angen gwella trefniadau cyfathrebu. |
| 6 | A yw'r pwyllgor archwilio yn esgoli materion a phryderon yn brydlon i'r rhai sydd mewn rolau llywodraethu ac arweinyddiaeth? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |

| Cwestiynau ymarfer da | | Diffyg cydymffurfio | Cydymffurfio'n rhannol a graddau'r gwelliant angenrheidiol | | | Llawn cydymffurfio | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwelliant sylweddol | Gwelliant arwyddocaol | Gwelliant cymedrol | Mân welliant | Dim gwelliant pellach | |
| *Pwysiad atebion* | | 0 | 1 | 2 | 3 | 5 | |
| 7 | A yw'r corff llywodraethol yn dwyn y pwyllgor archwilio i gyfrif am ei berfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Datblygu adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor sydd yn nodi cydymffurfiaeth gyda Datganiad Safbwynt CIPFA 2022; canlyniad yr arfarniad blynyddol; gwaith datblygol a wnaed a gwelliannau a gynlluniwyd; sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gylch gorchwyl a materion allweddol a gafwyd eu hesgoli yn y flwyddyn. |
| 8 | A yw'r pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn unol â chyfarwyddyd 2022, yn cynnwys: | | | | | | |
| | • cydymffurfiaeth a Datganiad Sefyllfa CIPFA 2022 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | • canlyniadau arfarniad blynyddol, gwaith datblygu a wnaethpwyd a gwelliannau arfaethedig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | • sut mae wedi cyflawni ei gylch gorchwyl a'r prif faterion a godwyd yn y flwyddyn? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| **Swyddogaethau'r Pwyllgor** | | | | | | | |
| 9 | A yw cylch gorchwyl y pwyllgor yn mynd i'r afael yn echblyg â'r holl feysydd craidd a nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA fel a ganlyn? | | | | | | |
| | Trefniadau llywodraethu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | Trefniadau rheoli risg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |

| Cwestiynau ymarfer da | | Diffyg cydymffurfio | Cydymffurfio'n rhannol a graddau'r gwelliant angenrheidiol | | | Llawn cydymffurfio | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwelliant sylweddol | Gwelliant arwyddocaol | Gwelliant cymedrol | Mân welliant | Dim gwelliant pellach | |
| *Pwysiad atebion* | | 0 | 1 | 2 | 3 | 5 | |
| | Trefniadau rheolaeth fewnol, yn cynnwys:<br>• rheolaeth ariannol<br>• gwerth am arian<br>• moeseg a safonau<br>• atal twyll a llygredigaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Dylai'r cylch gorchwyl ymgorffori y trefniadau rheolaeth fewnol mewn perthynas â gwerth am arian. |
| | Datganiad llywodraethu blynyddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | Adrodd ariannol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | Fframwaith sicrwydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | Archwilio mewnol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | Archwilio allanol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 10 | Dros y flwyddyn ddiwethaf, a roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r holl feysydd craidd? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Angen gwelliant yn y trefniadau ar gyfer adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg. |
| 11 | Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ystyriwyd gan y pwyllgor eitemau rhaglen sydd yn alinio â'i swyddogaethau craidd neu swyddogaethau ehangach a ddetholwyd fel y nodir yng nghyfarwyddyd 2022? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Angen sefydlu Blaen Raglen ar gyfer y Pwyllgor – hyn eisoes wedi ei weithredu. |
| 12 | A yw'r pwyllgor wedi cyfarfod yn breifat gyda'r archwilwyr allanol a'r pennaeth archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn diwethaf? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Amserlen y Pwyllgor i hwyluso cyfarfod preifat o'r Pwyllgor Archwilio gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodaeth a chefnogaeth** | | | | | | | |
| 13 | A yw'r pwyllgor wedi ei sefydlu yn unol â chyfarwyddyd 2022 fel a ganlyn? | | | | | | |
| | • Ar wahân i'r weithrediaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | • O faint nad yw'n anhylaw ac sy'n osgoi defnyddio eilyddion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| | • Yn cynnwys aelodau lleyg/aelodau annibynnol cyfetholedig yn unol â deddfwriaeth neu argymhelliad CIPFA | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 14 | A yw holl aelodau'r pwyllgor wedi eu penodi neu eu dethol er sicrhau aelodaeth pwyllgor sydd yn wybodus a medrus? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Dylid cynnal asesiad rheolaidd o wybodaeth, sgiliau ac anghenion hyfforddi y Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor a rhoi rhaglen hyfforddi ar waith gan ystyried meysydd yng nghyfarwyddyd 2022. |
| 15 | A oes gwerthusiad o wybodaeth, sgiliau ac anghenion hyfforddi'r cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor wedi'i gynnal yn y ddwy flynedd diwethaf? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Gweler uchod. |
| 16 | A oes trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer hyfforddiant rheolaidd a chefnogaeth ar gyfer y meysydd a nodir yng nghyfarwyddyd 2022? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Gweler uchod. |
| 17 | Ar draws aelodaeth y pwyllgor, a oes lefel boddhaol o wybodaeth fel y nodir yng nghyfarwyddyd 2022? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Gweler uchod. |
| 18 | A ddarperir ysgrifenyddiaeth a chymorth gweinyddol i'r pwyllgor? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 19 | Oes gan y Pwyllgor gysylltiadau gweithio da gyda phobl allweddol a sefydliadau, gan gynnwys archwilio allanol, archwilio mewnol a'r prif swyddog ariannol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithiolrwydd y pwyllgor** | | | | | | | |
| 20 | A yw'r Pwyllgor wedi cael adborth ar ei berfformiad gan y rheini sy'n rhyngweithio gyda'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Adroddiad blynyddol i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn – gweler cwestiwn 7. |
| 21 | A yw cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, drwy sicrhau bod prif eitemau'r rhaglen yn cael eu annerch gyda ffocws ar wella? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 22 | A yw'r cyfarfodydd yn effeithiol gyda lefel dda o drafodaeth ac ymgysylltu gan yr holl aelodau? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Bydd gwell ymgysylltu gan y pwyllgor yn cefnogi gwell canlyniadau. |
| 23 | A yw'r pwyllgor wedi cynnal dull anwleidyddol i drafodaethau bob amser? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 24 | A yw'r pwyllgor yn ymgysylltu ag ystod eang o arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys trafodaeth ar ddarganfyddiadau'r archwiliad, risgiau a chynlluniau gweithredu gyda swyddogion cyfrifol? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Angen gwella'r trefniadau mewn perthynas ag adroddiadau gan reoleiddwyr allanol. |
| 25 | A yw'r pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Dylai'r pwyllgor esgoli meysydd o bryder a gwneud argymhellion er gwella trefniadau llywodraethu, risg a trefniadau rheolaethau. |
| 26 | Oes gan argymhellion y pwyllgor archwilio dyniant gyda'r rhai sydd mewn rolau arweinyddiaeth? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | Gweler uchod. |
| 27 | A yw'r pwyllgor wedi gwerthuso p'un ai yw a sut mae'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad? | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | I'w ddatblygu fel yn briodol. |
| 28 | Oes gan y Pwyllgor gynllun gweithredu i wella unrhyw feysydd o wendid? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |
| 29 | A gynhaliwyd yr asesiad hwn ar y cyd ag aelodau'r pwyllgor archwilio? | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | |